

Papur Pawb

Pris: 50c

Medi 2008

Rhif 341

Cloch Eglwys Dewi Sant – tud 11



tud 3/6/7

Pobl a Phethe

tud 5/7

Ysgolion

tud 15

Ble yn y byd?

tud 16

Chwaraeon

Siom y Sioe

Fe gofir 2007 am dywydd gwael yn ystod yr haf a'r problemau ddaeth yn sgil achosion o Glwy'r Traed a'r Genau yn ne Lloegr. Yn sicr ddigon bydd 2008 yn cael ei chofio fel y flwyddyn ddi-haf, ddi-haul a glaw dibaid.

Bu Awst eleni yn un o'r misoedd Awst gwlypaf ers cychwyn cofnodi ystadegau. Gellid rhoi rhestr faith o sgil effeithiau yr holl dywydd gwlyb, ffermwyr heb orffen y cynhaeaf, colledion y diwydiant twristiaeth a chanslo nifer fawr o ddigwyddiadau gwledig ar draws Cymru.

Roedd sioe Tal-y-bont ymysg y digwyddiadau hynny, ac am ail dro yn ei hanes methwyd a chynnal y sioe oherwydd y tywydd a chyflwr y cae. Bu'n rhaid canslo sioe 1985 fel 2008 ar y funud olaf er siom i bawb. Ers dathlu'r canmlwydiant yn 1996 mae'r sioe wedi ei chanslo'n gyfangwbl ar ddau achlysur, yn 2001 (Clwy'r Traed a'r Genau) a 2008. Bu sioeau 2002 a 2007 heb gystadleuthau'r defaid, gwartheg a geifr oherwydd y Clwy.

Sefydlwyd cymdeithas y sioe gant a deuddeg o flynyddoedd yn ôl a dim ar chwarae bach y gwelwyd peidio cynnal sioe dros y blynyddoedd. Yn wir, ni chynhaliwyd y sioe yn sgil rhai o ddigwyddiadau mawr yr



Ifor a Margaret Mason, Llywyddion y Sioe gyda aelodau'r pwyllgor gwaith (llun Arvid Parry-Jones)



Codi arian ar y Prom – tud 12

Parhad tudalen 9

Golygydd Cyffredinol:	Geraint Evans Garnwen, Tal-y-bont, Ceredigion. post@garnwen.org.uk Cysyllter â golygyddion y mis. Carys Briddon	(01970) 832473
Tynnu lluniau: Teipyddes:		
Bont-goch: Parsel Henlllys: Eglwysfach: Taliessin: Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch Dilys Morgan, Alltgoch Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais Mai Leeding, Glannant, Taliessin Aileen Williams, Maesmeillion Kathleen Richards, Y Bryn Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl Janet Evans, Cefngweiriog Eirlys Jones, 91 Maes y Deri	832566 832498 (01654) 781312 832672 832438 832201 832429 (01654) 781260 832483
Maes y Deri:		
Cadeirydd: Is-gadeirydd: Ysgrifennydd: Trysorydd: Aelodaeth: Hysbysebion: Plygu: Dosbarthwyr:	CYMDEITHAS PAPUR PAWB Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont Geraint Pugh, Dôl Pistyll Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont Gwyn Jenkins, Maes Gwyn, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais Gwenllian Parry Jones, Lyn Hammonds Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones, Eurllys Jones (Tanysgrifiadau)	832448 832433 832384 832560 832438 (01654) 781312

2

Pris y Papur

Yn anffodus bu rhaid codi pris y papur i hanner can ceiniog, Mae ein costau wedi cynyddu ond gobeithiwn y byddwch yn croesawu'r papur ar ei newydd wedd.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Jennifer a Gwynfor Davies, Erw Lon a Garej Davmor, ar ddod yn famgu a thadcu am y tro cyntaf. Ganwyd merch fach sef Megan, i Ceri a Ian yng Nghaerdydd ar Fedi 7fed. Dymuniadau gorau i'r teulu i gyd. Braf hefyd gweld Gwynfor yn cerdded o gwmpas ar ôl ei lawdriniaeth yn ddiweddar.

Genedigaeth Wyr

Llongyfarchiadau i Gwen a Peter Manley, Swyn y Leri ar enedigaeth wyr bach newydd, sef Carwyn Charles Morgan Manley, mab i Huwel a Karen. Llongyfarchiadau hefyd i Hefin a Rita Llwyd, gynt o Benlôn-las, Tal-y-bont, ar ddod yn fam-gu a thaid unwaith eto. Ganed mab (Cai Llwyd Edwards) i Siriol ac Osian ar 15 Gorffennaf, brawd bach i Hedd, Elan a Deio, a chefnder i Beca. Dymuniadau gorau i'r teuluoedd i gyd.

Ymddeoliad

Pob dymuniad da i Gwilym Huws, Pengwern, Tal-y-bont, ar ei ymddeoliad ar ddiwedd Awst fel Deon y Gyfadran Gwyddorau Cymdeithasol ym Mhrifysgol Aberystwyth. Gobeithio y bydd ei waith fel Clerc Cyngor Ceulanamaesmawr yn ei gadw rhag llaesu dwylo'n ormodol!

Genedigaeth a Medal

Llongyfarchiadau i Helena a Siôn Pennant, Penygro, Bont-goch, ar enedigaeth eu merch, Caoimhe Melangell, ar 10 Mehefin, chwaer fach i Oisín Lludd. Pob dymuniad da i'r teulu.

Mae teulu Penygro hefyd yn ymfalchio yn llwyddiant Nain, sef Mrs Mair Penri, Y Parc, Y Bala wrth i'r Eisteddfod Genedlaethol ddyfarnu medal Syr T. H. Parry-Williams iddi am ei chyfraniad arbennig i ddiwyllaint ei hardal ac yn gydnabyddiaeth o'i gwasanaeth ym myd llefaru a drama ymhlith pobl ifainc. Fe'i hurddwyd mewn seremoni yn Eisteddfod Genedlethol Caerdydd. Da yw gweld ei mab Siôn yn dilyn yn yr un traddodiad.

Pobl a Phethe



Priodas

Yn Eglwys Sant Pedr, Elerch ar Sadwrn 9fed Awst priodwyd Rhodri Lloyd-Williams, Moelglomen a Dr Sarah Wright, Causway Cottage, Millom, Cumbria. Gweinyddwyd y briodas gan y ficer, Y Parchg John Livingstone. Teithiodd y ddau yn ôl i Foelglomen yn dilyn y gwasanaeth ar dractor MF 35x, wedi ei adnewyddu yn ofalus gan Deulwyn Evans, Llwynsguborwen. Llongyfarchiadau mawr iddynt a dymuniadau gorau i'r dyfodol yn eu cartref yn Aberystwyth.



Priodas

Ar 30ain o Fai eleni priodwyd Vicky Ann Ellis a Jon Paul Evans yn Zakynthos, Groeg. Maent yn byw ym Mhen Aber, Tal-y-bont.

Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i Iolo ac Ellen ap Gwynn, Garreg Wen, Tal-y-bont, ar ddathlu deugain mlynedd o fywyd priodasol ar 1 Gorffennaf – ac roedd Ellen hefyd yn dathlu ei phen-blwydd ar yr un dyddiad. Ymlaen yn awr at yr Aur!

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu Ynysgreigiog a Chlap y Cripiau ar golli tad, Richard Iorwerth Jenkins, Ynysgreigiog gynt. Cydymdeimlwn hefyd â'i briod, Ann a'i frawd WJ Jenkins, Penrhyngerwyn a'r teulu.

Tân

Brawychwyd trigolion pentref Bont-goch yn dilyn y tân a ddifrododd Tanllidiart. Bu'r gymdogaeth yn unol yn eu consyrn a'u cefnogaeth i Mr David James Thomas, ac anfonir ein dymuniadau gorau iddo yn ei gartref dros-dro ar gyrion Tal-y-bont. Hyderwn y bydd yn bosibl iddo ddychwelyd i'w gynefin yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae pawb yn Bont-goch yn gweld ei eisiau, ac yn edrych ymlaen at ei groesawu yn ôl i'n plith.

Gwibdaith

Mae gwibdaith yr Henoed Llangynfelyn yn mynd i Dŷ Scolton a'r Parc Gwledig yn Sir Benfro ac yna ymlaen i Hwlfordd ar Ddydd Mercher Medi'r 10fed.

Pen-blwyddi Arbennig

Anfonwn ein cyfarchion cynhesaf at Brian Davies, Rhos, Taliesin, a ddathlodd ben-blwydd arbennig ddechrau'r wythnos. Gobeithio bod Ceredigion wedi argraffu'r "Bus-pass" yn barod.

Hefyd llongyfarchiadau i Margaret Jenkins, Tynygraig a ddathlodd ben-blwydd arbennig ar Awst 18, Myfanwy James a oedd yn 70 oed ar Fedi'r 2il, i Keith Evans, Penygraig, Bontgoch a ddathlodd ei ben-blwydd arbennig yntau ar y 5ed o Fedi ac i Rhodri Richards, Clap y Cripiau a ddathlodd ei ben-blwydd yn ddeunaw ar Awst 28.


Gwellhad Buan

Anfonwn ein cofion at Rhian Jenkins, Gweddynys, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ysbyty Telford, ac yn gwynebu rhagor o driniaeth yn y dyfodol agos.

Hefyd i Mrs Annie Watkin, Brynawel, ar ôl ei damwain yn ddiweddar.

Caryl
a'i cheffyl

Mae Caryl Williams, Penrhos wedi ennill lle yn cynrychioli Gorllewin Cymru mewn 'dressage' ym Mhencampwriaeth Genedlaethol y Clybiau Marchogaeth Prydeinig ac nid yw'n syndod ei bod wedi cael swydd yng Nghanolfan Marchogaeth Rheidol, yng Nghwm Rheidol.



Dwy Anrhydedd i Gareth

Ioan Jones, Llanelwedd, Cadeirydd y Pwyllgor Cneifio, yn cyflwyno ffon fugail i Gareth Evans, Bontgoch, Tal-y-bont, yn Sioe Frenhinol Cymru, yn Llanelwedd. Rhodd oedd y ffon gan y cneifiwyr gwelleifiau, i Gareth am sylwebu ar y cystadlaethau cneifio a llaw am dri deg dwy o flynyddoedd.

Hefyd cyflwynwyd model bach o darw Du Cymreig iddo ar ran y Gymdeithas Gwartheg Duon am archwilio'r teirw yn Seli'r Gymdeithas am gyfnod o 20 mlynedd.



Ci Cymreig

Cynigiodd y Gymdeithas Cŵn Cymreig saith ci bach wedi'u cofrestru i drafodwyr ifanc i'w magu, ac yna eu hyfforddi o dan arweiniad/oruchwyliath cynghorwr sy'n brofiadol o ran hyfforddi'r brid arbennig hwn. Dyma Gwion Evans, Tanllan yn derbyn un oddi wrth Bethan Gwanas yn y Sioe yn Llanelwedd.




Myfyriwr y flwyddyn

Llongyfarchiadau i Siôn Evans, Neuaddfawr, sydd yn fyfyrwr yng Ngholeg Llysfasi, am fod yn Fyfyriwr y Flwyddyn ar ei gwrs Tystysgrif Cenedlaethol mewn Amaethyddiaeth.

Sam yn mwynhau

Dros yr haf bu Sam Ebenezer yn canu yng nghorws y sioe 'My Fair Lady' yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth. Bu'n perfformio gyda Ieuan Rhys.



Hefin Hopkins



Rosie Bailey

Chwaraewyr disglair

Mae'n dda gweld cymaint o blant ardal Bont-goch yn serenu ar y meysydd chwarae. Mae llwyddiant syfrdanol Angharad a Daniel Basnett, Swn-y-gog, yn parhau ar y lawntiau golff, ac mae'r trigolion hefyd yn medru ymffrostio bod ganddynt chwaraewraig ryngwladol yn byw yn eu plith wrth i Rosie Bailey, Troedrhiwseiri, gael ei dewis yn ddiweddar i chwarae yn nhîm hoci merched Cymru dan 16 oed. Hefyd gôl-geidwad y tîm buddugol yn y Cwpan Campus Cymreig yng Ngorffennaf oedd Hefin Hopkins, Dyffryn, Tal-y-bont. Pob dymuniad da iddynt ar gyfer y dyfodol.



Daniel ac Angharad Basnett

Ysgol Gymunedol Llangynfelyn


Ar ddechrau blwyddyn newydd yn yr ysgol, dymunwn yn dda iawn i gyn-ddisgblion Blwyddyn 6 Ysgol Llangynfelyn sydd wedi dechrau yn Ysgol Penglais. Gobeithio fydd, Bridget, Lisa, Kelly, Dylan a Thomas yn hapus iawn yn eu hysgol newydd.

Ffarweliwyd â Miss Ingrid Rose ar ddiwedd Tymor yr Hâf ar ôl dau dymor fel athrawes yn yr ysgol. Dymunwn yn dda iddi ar ei swydd newydd yn Ysgol Llangeitho. Diolchwn i Miss Rose am ei rhôdd caredig o'r ffens sydd o amgylch yr ardd lysiau newydd a hefyd i'w mab Cynon Rose am roi'r ffens fyny i ni.

Croesawn Mr Emyr John atom fel ein Pennaeth newydd. Gobeithiwn y bydd yn hapus iawn yma yn Ysgol Llangynfelyn.

Baner Werdd Ysgol Eco

Mae'r ysgol wedi llwyddo i gyrraedd y safon uchaf yng nghynllun yr Ysgol Eco sef y Faner Werdd. Bu'r plant, rhieni a'r athrawon yn brysur iawn yn nhymor yr haf yn plannu blodau a lysiau. Mae'r gwaith ail-gylchu, lleihau gwastraff a monitro ein defnydd o ddŵr ac egni yn cario ymlaen drwy'r flwyddyn.



Gweithgareddau gyda Ysgol Tal-y-bont

Bu disgyblion Ysgol Llangynfelyn a Tal-y-bont yn ymuno mewn gweithgareddau ioga ac adeiladu tîm am gyfres o sesiynau. Roedd yn braf gweld disgyblion o'r ddwy ysgol yn cyd-chwarae ac yn mwynhau eu hunain.

Tenis

Bu dau dîm o'r ysgol yn cynrychioli Ceredigion mewn cystadleuthau Tennis Mini De Cymru. Aeth tîm Merched Blwyddyn 3 i Borth Talbot ac aethant drwyddo i'r rownd gyn-derfynol. Aeth tîm Cymysg Blwyddyn 5 i Gaerdydd i gystadlu ac roeddynt o fewn 3 pwynt o gyrraedd y rownd gyn-derfynol.

Ocsiwn

Cynhaliwyd ocsiwn llwyddiannus iawn o dan ofal Mr Iestyn Leyshon. Codwyd dros fil o bunnoedd ar y noson. Diolch yn fawr iawn i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am drefnu'r noson.

Acwathlon yr Urdd

Daeth Nansi Dingle yn ail yng nghystadleuaeth Acwathlon yr Urdd yn Aberystwyth. Da iawn Nansi.

Trip Ysgol

Ar ddiwrnod gwlyb iawn ar ddiwedd Mis Mehefin aeth yr ysgol gyfan i Barc y Deinosoriaid yn Nimbych y Pysgod. Yn anffodus bu'n rhaid gadael yn gynnar oherwydd y glaw. Penderfynwyd aros yn Nheifi-Mania yn Aberteifi ar y ffordd adref er mwyn i'r plant cael cyfle i chwarae mewn rhywle sych.



Marc Safon

Bu'r ysgol yn llwyddianus yn derbyn y Marc Safon am y 3ydd tro ym mis Mehefin yn dilyn ymweliad Mr Terwyn Tomos a Mrs Gillian Jones.

Proms Ysgolion Cynradd Ceredigion

Bu amryw o'r plant hŷn yn cymeryd rhan yn y cyngerdd yn chwarae yn y gerddorfa ac yn canu yn y côr. Bu band yr ysgol yn chwarae hefyd ar ôl eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghonwy.

Bwlch Nant yr Arian

Bu plant Blynnyddoedd 4, 5 a 6 yn cymeryd rhan mewn gweithgareddau Bygiau Bacio yn Bwlch Nant yr Arian tra fu'r plant llai yn mynd am dro ac yn ymchwilio i greaduriaid bach yn y llyn.



Mabolgampau

Tîm Cletwr enillodd y mabolgampau eleni. Enillwyr y pwyntiau uchaf oedd:

- Bechgyn Cyfnod Allweddol 2 – Llŷr Jones
- Merched Cyfnod Alweddol 2 – Nansi Dingle a Bridget Potter
- Bechgyn Cyfnod Allweddol 1 – Connor Byrne
- Merched Cyfnod Allweddol 1 – Tobia Heathfield a Maeve Courtier-Lilley

Glanllyn

Aeth criw o blant Blynnyddoedd 4, 5 a 6 i Glanllyn am dri diwrnod. Mwynhaodd pawb eu hamser yno yn canwio, gwneud raffiau, dringo a nofio.

Barbeciw

Cynhaliwyd ein barbeciw blynnyddol ar noson sych ym Mis Gorffennaf. Codwyd £670 a diolchwn i Mrs Sarah Mumford o Fanc Barclays am nodd i'r swm punt am bunt.



Ymwelydd o Zimbabwe

Daeth Martha Muzona o Zimbabwe atom i siarad am ei chartref. Bu'n diddor i'r plant gyda'i storïau a'i chaneuon hyfryd. Siaradodd hefyd am bwysigrwydd Masnach Deg i bobl Zimbabwe.



Symud Tŷ
Rydym yn dymuno pob hapusrwydd i Edna ac Emyr Thomas, Lletylwydin, yn eu cartref newydd yn Cross Inn ger Cei Newydd. Bydd eu colli yn gadael bwlch mawr i ni yn Rehoboth ac yn y gymdeithas ehangach.

Garddwest yn Eglwysfach
Codwyd £1500 tuag at yr eglwys pan gynhaliwyd garddwest yn y Foelas.

Cydymdeimlad
Cydymdeimlir yn ddiffuant iawn â Mr T. Mitchell, Tan-y-bwlch, Bont-goch a gollodd ei briod yn annisgwyl yn ystod mis Gorffennaf.


Llongyfarchiadau i
Flic Eden ,Taliesin a Zoe Forster-Brown, Eglwysfach am ennill cymeradwyaeth uchel mewn cystadleuath celf yng Ngŵyl Machynlleth a gynhaliwyd yn Y Tabernacl, yn ddiweddar.

Pasio'r prawf gyrru
Llongyfarchiadau i Gwyn Jones, Ffion Southgate, Lisa Southgate, Steffan Nutting a Geraint Jenkins ar basio'r prawf gyrru yn ddiweddar.

Llwyddiant
Llongyfarchiadau i Susan Lithgow, Hafod Elerch, Bont-goch ar ei llwyddiant diweddar mewn arholiad Cymraeg, a hynny gyda chlod arbennig.

Ysgoldy Bontgoch
Cydsyniodd Pwyllgor Cynllunio Ceredigion i gais Cyngor Plwyfol Elerch i newid defnydd yr Hen Ysgol i dy annedd. Bydd hyn yn sicrhau dyfodol adeilad hanesyddol pwysig, tra'n gwarantu hefyd cyllid digonol i ganiatau gwaith cynnal a chadw anghenrheidiol ar Eglwys St. Pedr yn ogystal â'i addasu ar gyfer gofynion cymunedol.

Arddangosfa Gelf
Ar hyn o bryd mae gan Jâms Morgan, Maesnewydd ddarn o waith celf mewn arddangosfa Gelf Ysgolion y Tair Sir yng Nghanolfan y Celfyddydau ac mae'n werth ymweld â hi.



Bedydd

Ar Ddydd Sul, 7 Medi yn Eglwys St. Pedr, Elerch bedyddiwyd Beca Angharad, merch fach Huw a Margaret, Llety Ifan Hen, Bont-goch. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r teulu.

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn yn fawr gyda teulu Llwynglas, Tal-y-bont wrth i Janet golli ei chwaer, Anwen Harding o Fachynlleth, yn syfyrdanol o sydyn yn ddiweddar.
Dymuna Janet, Alun a Ceri ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth sydyn ac annisgwyl o golli chwaer, chwaer yng nghyfraith a modryb annwyl iawn. Diolch am y llu o gardiau, galwadau ffôn, blodau ac ymweliadau. Gwerthfawrogir y cyfan.

Bad Achub y Borth
Yn ystod yr wythnos Badau Achub ym mis Gorffennaf, casglwyd y swm o £187.72 o ddrws i ddrws yn Nhal-y-bont tuag at Bad Achub y Borth. Yn yr ardal gyfan casglwyd £2,635.82. Diolch i bawb am gyfrannu mor hael ac am y croeso wrth gasglu. *Eirlys Jones a Myrtle Parker*

Cartref Newydd
Dymuniadau gorau i Jules, ac Owain a'r teulu sydd wedi symud o Ebeneser i w ty newydd drws nesaf a enwyd yn Pennant. Croeso cynnes i Daphne Watson a ddaeth i fyw i Ebeneser - sydd bellach wedi ei ail enwi yn Bwthyn Rhosyn Gwyllt.

Anffawd mam a merch
Tra ar wyliau yn Ne America cafodd Nia Evans, gynt o Maes-y-deri, Tal-y-bont boen yn ei chefn. Bu'n rhaid iddi hedfan adre gyda chriw meddygol yn ei chludo yr holl ffordd. Daeth adre yn sâff a Luned, ei mham yn gofalu amdani yn Bow Street, ond yn anffodus cwmpodd Luned hithau a thorri ei bigwrn. Anfonnwn ein cyfarchion cynhesaf at y ddwy.

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Catherine ac Andrew, 10 Maes Cletwr, Tre'r Ddôl ar enedigaeth mab, Tyler ar y 5ed o Fedi. Brawd bach i Angharad.

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn gyda Gwilym ac Ann Jenkins a'r teulu; Margaret Jones a'r teulu; Non a John Griffiths a'r teulu; Edna ac Emyr Thomas a'r teulu ar golli modryb, Winnie Glickman, yn Henffordd. Hefyd gyda Dai Davies, (Y Fferyllfa gynt), ar golli ei chwaer, Ann Lloyd Hughes, a oedd yn byw yng Ngharmel, Llanelli.

Yn yr Ysbyty
Anfonwn ein cyfarchion at Mrs Douglas Jones, Brooklyn sydd ar hyn o bryd yn Uned Twymyn, ym Machynlleth.

Iolo yn beirniadu yn yr Iwerddon
Ym mis Gorffennaf cafodd Iolo Davies, Doleifion y fraint ac anrhydedd i fynd i sioe Castlewellan yng Ngogledd Iwerddon i feirniadu defaid Poll Dorset. Mae'r sioe yma yn un bwysig iawn yn Ngogledd Iwerddon gyda phawb yn cystadlu am y gorau. Treuliodd Iolo gryn amser yn edrych a theimlo'r defaid i gyd mewn dosbarthiadau gwerth eu gweld. Da iawn ti Iolo.

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn gydag Othniel a Wendy James a'r teulu, Wenoth, Tre'r Ddôl ar golli mam Othniel sef Megan James, Llanfarian ac hefyd gyda Stephen a Janet Evans a'r teulu, Cefngweiriog ar golli modryb i Stephen yn Bow Street. Hefyd gyda Katie ac Evan James a'r teulu, Tre'r Ddôl ar farwolaeth chwaer i Katie, sef Annie Slack, Llanbadarn.

Croeso
Croeso cynnes i'r ardal i Daphne Watson, perchennog newydd Ebeneser, neu Bwthyn Rhosyn Gwyllt i roi iddo ei enw newydd.

Caws, Gwin a Chân Eglwys Elerch
Gwfreiddiwyd cynulleidfawr gan berfformiad Cor ABC dan arweiniad medrus y Dr Angharad Fychan yn noson flynyddol Caws, Gwin & Chan Eglwys Elerch ar ddiwedd Mehefin. Llwyddwyd i godi dros £600 i'r coffrau a chytunwyd i gyflwyno £50 o'r elw i Gronfa leol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Ceredigion, 2010. Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at lwyddiant y noson sydd bellach yn ennill ei phlwyf ar galendr digwyddiadau'r ardal.

O'r Ysbyty
Cofion gorau i Mark Bradley, 88 Maes-y-deri a Gerald Roberts, 90 Maes-y-deri, Tal-y-bont a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Llwyddiant
Bu'r haf yn dymor canlyniadau'r arholiadau TGAU a lefel A, gyda llu o ieuenctid yr ardal yn profi llwyddiant. Mae nifer ohonynt yn dychwelyd i'r chweched dosbarth, a rhai wedi penderfynu mynd i goleg. Dymuniadau gorau i chi gyd.

Swyddi Newydd

Dymuniadau gorau i Ceri Jones, Llwynglas sydd wedi cael ei phenodi yn athrawes yn Ysgol Gynradd Llanilar ac i Lisa Evans, Y Dderwen, Tal-y-bont sydd wedi dechrau fel Cynorthwydd Dosbarth yn Ysgol Penglais, gan fod Modurdy Cwm Einion, Ffwrnais yn cau ddiwedd y mis.

Wedi bod yn yr Ysbyty

Y rhai fu yn yr ysbyty yn ddiweddar oedd Geraint Howard a fu yn yr Ysbyty yng Nghaerdydd, Gwenllïan Parry-Jones, Is-Allt a Iorwerth Jones, Ger-y-Nant a dderbyniodd lawdriniaeth yr un yn Aberystwyth. Hefyd Gillian West, White Windows, Gary Jones, Llwynadda a David Jenkins, Ynys Eidiol y tri wedi treulio amser ym Mronglais. Cofion gorau i bawb.

Croeso

Croeso cynnes iawn i'r Athro a Mrs Karl Hoffmann a'i merch fach i Glanceulan, Tal-y-bont.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i John Southgate a Wendy ar enedigaeth merch fach, Kelsey.

Diolch

Dymuna Kathleen Richards, Y Bryn ddiolch am yr holl gardiau, anrhegion a'r cyfeillgarwch a ddangoswyd iddi tra'n yr ysbyty ac ar ôl dod adref ar ôl cwmpo yn ddiweddar.

Geoff yn diolch

Hoffwn ddiolch o galon i bawb gyfrannodd tuag at fy nhysteb a'r nifer helaeth o anrhegion a chardiau a dderbyniais wrth ffarwelio â'r ysgol. Cefais dros ddeunaw mlynedd hapus fel aelod o staff yr ysgol a mawr yw fy niolch i'm cydweithwyr dros y cyfnod yma. Teimlais o'r cychwyn groeso a chefnogaeth cymuned glos, unigryw Tal-y-bont, a diolch am y gefnogaeth. Pleser oedd dysgu plant Tal-y-bont. Mae gen i atgofion hapus iawn. Pob llwyddiant i'r ysgol yn y dyfodol.

Geoff

Enillwyr raffl Eglwys Sant Mihangel Eglwysfach ar 24-8-08

Cinio i 2 yn yr Orendy, Aberystwyth – **Renata a Hans Bredow, Glandyfi**
Based o nwyddau yn rhoddedig gan H G Jones, Machynlleth – **Stuart Neal, Glandyfi**
Siampên – **Mr Major, Ffwrnais**
Tocyn £25 i'r spa ym Mhlas Talgarth - **Mrs Jan Rideout, Eglwysfach**

MERCHED Y WAWR TAL-Y-BONT A'R CYLCH

Etholwyd yr aelodau canlynol i weithredu ar y pwyllgor am y tymor nesaf: Llywydd: Megan Mai; Is-lywydd: Diana Jones; Ysgrifenyddion: Mai Leeding ac Ann Thomas; Is-ysgrifenyddion: Falyri Jenkins a Non Griffiths; Trysorydd: Glenys Edwards; Is-drysorydd: Meinir Fleming; Gofalwr y Te: Myfanwy James; Dosbarthwr Y Wawr: Betty Jenkins; Gohebydd y wasg: Carys Briddon.
Bydd cyfarfod cyntaf y tymor newydd ar nos Lun, 15 Medi am 7.30 o'r gloch yn y Neuadd Goffa, a bydd y noson yng nghwmni Debra Griffiths, un o sêr y rhaglen deledu 'Coalhouse'.

CYMORTH CRISTNOGOL

Yn ystod mis Mai bu casgliad o ddrws i ddrws tuag at Cymorth Cristnogol ym mhlwyf Llangynfelyn gan Olwen Rowlands, Ann Humphreys a Carys Briddon. Diolch i bawb a gyfrannodd, ac eleni codwyd y swm o £244.87. Owen Jenkins oedd yng ngofal y trefniadau ariannol.

CYMORTH CANSER MACMILLAN

Yn ystod mis Gorffennaf bu Mrs Eirlys Jones a Mrs Tegwen Jones o gwmpas Tal-y-bont a'r rhan fwyaf o gymuned Ceulanamaesmawr yn casglu tuag at yr elusen yma. Cawsant groeso arbennig gan bawb a braf yw cyhoeddi iddynt gasglu swm anrhydeddus o £299.15. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Ysgol Gymunedol Tal-y-bont

Llwyddiant dros y gwyliau

Er bod gwyliau'r haf yn gyfle i ymlacio a chael hoe o'r ysgol, mae'n amlwg fod llawer o'r plant wedi bod yn brysur yn cyfrannu i wahanol gystadlaethau. Hoffwn, felly, longyfarch y plant a'r staff a gafodd llwyddiant mewn gwahanol gystadlaethau dros yr wythnosau diwethaf.

Ymddeoliad Mr Davies

Dechreuodd y tymor newydd, ac roedd hi'n rhyfedd iawn yma heb Mr Davies. Fel y gwyddoch i gyd erbyn hyn, fe wnaeth Mr Davies adael yr ysgol ar ddiwedd tymor yr haf ac fe gafwyd noson hyfryd i ddathlu ei gyfraniad i'r ysgol. Gall neb wadu ei ymroddiad llwyr i fywyd a gwaith yr ysgol dros y deunaw mlynedd a mwy y bu yma a doedd hi ddim syndod fod dros gant o bobl wedi dod i'r ysgol i dalu eu diolchiadau iddo, yn cynnwys llawer iawn o gyn-ddisgyblion. Roedd hyd yn oed Radio Cymru wedi clywed am y digwyddiad! Cafwyd cacen flacus iawn a jeli a hufen iâ ac fe gyfrannodd blant yr ysgol sawl eitem ddifyr. Cafodd Mr Davies nifer o anrhegion hefyd i gofio am ei gyfnod yn Nhal-y-bont, ac roedd wrth ei fodd gyda'r ffotograff gan Ron Davies a'r llun arbennig o'r pentref a'r ardal gan Ruth Jên yn enwedig. Hoffwn ddymuno'n dda iddo ym mha beth bynnag y bydd yn dymuno ei wneud a diolch o galon iddo am ei waith a'i gwmni. Pob hwyl i chi Mr Davies.



Arian Loteri

Cafodd yr ysgol newyddion da iawn drwy'r post yn ddiweddar. Buom yn llwyddiannus i ennill grant sylweddol o'r gronfa "Arian i Bawb" y Loteri Genedlaethol. Fel rhan o'r grant, mae'n ofynnol i ni drefnu gwersi ar sut i ddefnyddio agweddau o'r cyfrifiadur. Mwy o fanylion i ddilyn.
Mae wedi bod yn braf cael croesawu plant newydd i'r ysgol ac mae'n braf hefyd gael croesawu Mrs Meinir Edwards fel aelod newydd o staff hefyd.

Masnach Deg

Ar ddiwedd tymor yr Haf enillodd yr ysgol y fraint o fod yn Ysgol Masnach Deg – un o bymtheg yn unig ledled Cymru! Hwn oedd diwedd glo dros flwyddyn o waith cyson a mwynhad, gyda'r bwriad o hybu mentrau Masnach Deg. Gwelwyd pob aelod o'r ysgol yn mwynhau gwersi a gweithgareddau hwyliog ac amrywiol yn hyrwyddo nwyddau a neges Masnach Deg – o bicnic i herwgipio te a choffi'r staff! Dathlwyd ein llwyddiant gydag ymweliad oddi wrth Martha o Zimbabwe sydd â phrofiad uniongyrchol o'r ffordd y gall Masnach Deg trawsnewid bywydau. Diolch i bawb am eu cefnogaeth i'r brosiect.



C.Ff.I. Tal-y-bont

Bu nifer o gystadlaethau gyda'r Ffermwyr Ifanc yn ystod yr haf. Ar ddydd Sul, 15 Mehefin, bu Geraint, Iolo, Rhys, Gareth, Rhydian, Aled a Carwyn yn cystadlu yn Rygbi'r sir. Y nos Wener ganlynol, roedd y gystadleuaeth Tynnu'r Gelyn. Llongyfarchiadau i glwb Tal-y-bont am ddod yn 3ydd.

Yr wythnos ganlynol, dydd Sadwrn 28 Mehefin, bu nifer o'r aelodau lawr yn Ysgol Dyffryn Teifi a Chanolfan Hamdden, Llandysul, yn cymryd rhan yn Chwaraeon y Sir – mewn cystadlaethau megis athletau, rounders ayb. Cafwyd noson hwyliog y nos Fawrth ganlynol – pêl-droed 5 bob ochr yn y Neuadd Goffa. Cyfle i gael bach o hwyl wedi'r holl gystadlu.

Ar nos Fercher, 2 Gorffennaf, bu 2 dîm o 6 aelod, dan 18, yn cymryd rhan yn 'It's a Knockout'. Cynhaliwyd y gystadleuaeth eleni eto yn Cel Aeron, Aberaeron. Llongyfarchiadau i un o'r timoedd, gan iddynt ddod yn 2il.

Cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynnyddol ar nos Fawrth, 15 Gorffennaf. Ein swyddogion eleni yw:

Cadeirydd:	Elgan Evans, Tynant
Ysgrifynyddion:	Mererid James, Cwmudw a Danielle Pryce
Trysorydd:	Geraint Jenkins, Cerrigaranau
Llywyddion:	Enoc a Margaret Jenkins, Tyngraig

Bu Geraint, Eifion a Dewi Jenkins yn cynrychioli'r Sir yn y Sioe Frenhinol, gan gystadlu yn y cystadlaethau Barnu Stoc. Llongyfarchiadau i Geraint am gael 1af dan 21 gyda Barnu Gwartheg Godro, ac hefyd am ennill cwpan.

Bu rhai o'r aelodau yn cystadlu yn Nhreialon Cwn Defaid y Sir ar nos Fercher, 6 Awst. Llongyfarchiadau i Aled Llyr am ddod yn 2il, ac Elgan Evans am ddod yn 3ydd.

Bellach mae'r clwb wedi ail-ddechrau. Cynhaliwyd y Sosial Fach ar nos Fawrth, 2 Medi, gyda Derrick Davies, Tynddraenen. Llauer o ddiolch iddo am ein diddanu gyda'i gêm. Cafwyd noson difyr, hwyliog, a phawb yn llawn egni! Braf oedd gweld ambell aelod newydd yn ein plith.

Os hoffai unrhyw berson rhwng 11 a 26 ymuno â'r clwb, rydym yn cyfarfod yn wythnosol ar nos Fawrth, am 8.00yh, yng ngwaelod Neuadd Goffa Tal-y-bont. Hefyd, estynir croeso i gyn-aelodau i'n cyfarfodydd, nosweithiau a thripiâu.

CSJ

Canlyniadau Clwb 100 CFfi Tal-y-bont: Mehefin

£20	Mrs J M Pugh, Fronddewi, Capel Dewi
£15	Cathy Jones, Cnwc-y-Barcud, Bont Goch
£10	Geraint Jones, Brynolwg, Bont Goch

Gorffennaf

£20	A. Williams, Maes Meillion, Tal-y-bont
£15	Evan Evans, Tynrhelyg, Tal-y-bont
£10	Teulu Tyngraig, Tal-y-bont



Y beirdd ifanc, Esther Llwyd Ifan, Zoe Forster-Brown a Catrin Huws, gyda Joy Neal, Falyri Jenkins ac Ellen ap Gwynn.

Gŵyl Farddoniaeth R.S. Thomas

Ar benwythnos cyntaf y gwyliau haf cynhaliwyd Gŵyl Farddoniaeth R.S. Thomas yn Eglwys St. Michael's a'r Ystafell Haearn yn Eglwysfach.

Cafwyd dechrau da i'r ŵyl gyda'r Gystadleuaeth Farddoniaeth i blant oed cynradd. Roedd disgyblion o ysgolion cynradd Machynlleth, Pennal, Llangynfelyn a Thal-y-bont wedi cystadlu a dywedodd y beirniad, Dr Gwendraeth Morgan, fod safon y cerddi yn uchel iawn. Yn y gystadleuaeth ysgrifennu cerdd Gymraeg enillodd Esther Llwyd Ifan, Llys Alaw y wobr gyntaf ac enillodd Catrin Huws, Henllan y drydedd wobr. Enillodd Zoe Foster Brown o Eglwysfach, sydd hefyd yn ddisgybl yn Ysgol Tal-y-bont, y wobr gyntaf am ysgrifennu cerdd Saesneg.

Yn dilyn hyn cafwyd beirniadaeth y Gystadleuaeth Farddoniaeth i oed uwchradd. Beirniad y cerddi Saesneg oedd Mrs Wendy Crockett a beirniad y cerddi Cymraeg oedd y Prifardd Gwenallt Llwyd Ifan. Unwaith eto roedd safon y cerddi a ddaeth i law o Ysgolion Uwchradd Bro Ddyfi, Tregaron a Llanfair Caereinion yn uchel iawn. Cyflwynwyd tystysgrif, gwobr ariannol a llyfr, yn rhoddedig gan Y Lolfa, i bob un o'r beirdd buddugol.

Yn y prynhawn cafwyd seremoni i ddadorchuddio cofeb i'r bardd R.S. Thomas. Agorwyd y seremoni gan Mrs Lona Jones a dadorchuddiwyd y gofeb gan yr Arglwydd Elystan Morgan. Roedd y gofeb wedi cael ei rhoi gan Mr Paul James o James Memorials, Aberystwyth. Cyflwynodd Emily, llysferch Mr Paul James, dusw o flodau i'r Arglwydd Elystan. Traddododd yr Athro G.A. Williams ddarlith fer ar fywyd R.S. Thomas a chafwyd darlenniadau gan y Parch Rhidian Jones a Mr Erwyd Howells. Mrs Alvina Grant oedd yn canu'r organ.

Yn hwyrach yn y prynhawn cyhoeddwyd mai enillydd y Gystadleuaeth Farddoniaeth Agored Cymraeg oedd Mrs Margaret E. Jones-Robinson o'r Fenni. Y ddau feirniad oedd Yr Athro Williams a'r Parch Rhidian Jones a Cyngor Llyfrau Cymru oedd wedi rhoi'r gwobrau.

Yn y Gystadleuaeth Farddoniaeth Agored Saesneg dyfarnodd y ddau feirniad, sef Yr Athro Tony Brown a Mr Byron Rogers, y wobr gyntaf i'r Fonesig Cecilia Chance o Gricieth, a'r ail wobr i Mrs Gillian Walker o Bwllheli. I gloi'r Ŵyl, cynhaliwyd arwerthiant llyfrau enfawr yn yr Ystafell Haearn.



M & D PLUMBERS
Plumbing & Heating
Ffôn: 01970 833068
Cyfeirir i ni yn gartref ar
01974 282828 / 01974 282829



S. F. BYRNE
Adoffedwr a Saer Maen



Ffôn: 01970 833068
M: 077626 20309
Gwneir pŵel i'w gael i'w gael



Clocsio yn y Genedlaethol

Rydw i wedi cael llawer o brofiadau gwahanol dros yr haf, un o'r rhai mwyaf cofiadwy oedd dawnsio ar llwyfan Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a'r cylch.

Dim ond Medi, Neuadd Fawr, oedd wedi clocsio o'r blaen, ac y mae hi wedi bod yn clocsio am o leiaf dwy flynedd. Roedd pawb arall yn ein grŵp – Grŵp Medi – wedi dysgu o fewn y tri mis - dim ond tri mis i greu dawns ac ei hymarfer! Roedden ni yn cystadlu yn erbyn grwpiau mawr fel Talog a Nantgarw oedd wedi bod yn dawnsio am dros deg mlynedd.

Roedden ni gyd yn nerfus iawn cyn mynd ymlaen. Roedd y grwpiau eraill yn neis iawn achos roedden nhw yn ein cefnogi ni wrth ddweud pob lwc i bawb. Ar y llwyfan roedd pawb yn gwenu ac roedden ni gyd yn gallu clywed ein rhieni yn gweiddi o'r gynulleidfa. Ar ôl i ni ddawnsio dyma ni yn gwyllo y rhai eraill o tu nôl llwyfan. Roedd pawb o'r grŵp eisiau mynd yn nôl ar y llwyfan a dawnsio eto am fod pawb wedi mwynhau gymaint.

Naethon ni ddim cael cyntaf, ail na thrydydd ond roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn a gaethon ni feirniadaeth dda iawn felly roedden ni ddim yn siomedig.

Diolch i Mrs Falyri Jenkins ac Elen Ebenezer am gyfeilio i ni ar y llwyfan ac yn arbennig i Carwyn am fod yn athro ffab!

Elan

Parhad o dudalen 1

Siom y Sioe

ugeinfed ganrif, yn 1917 a 1918 oherwydd y Rhyfel Mawr ac o 1939-1945 oherwydd yr Ail Ryfel Byd. Gan fod y Sioe Frenhinol yn cael ei chynnal yn Aberystwyth yn 1933 a 1957 ni fu sioe yn Nhal-y-bont y ddwy flynedd honno.

Mewn datganiad i Bapur Pawb nododd swyddogion y sioe eu siom o orfod canslo'r sioe eleni. 'Boddi yn ymyl y lan, dyna fu hanes sioe Tal-y-bont fel nifer o sioeau a digwyddiadau awyr agored eraill yr haf yma. Bu'n siom fawr i aelodau'r pwyllgor, cefnogwyr y sioe a'r cyhoedd yn gyffredinol. Er i Sadwrn, Awst 23ain droi allan yn ddiwrnod cymharol braf rhaid paratoi y maes ddyddiau ymlaen llaw. Nid oedd hi'n ddeg a theulu Glanleri i fynd a thractorau ac offer trwm i'r cae, yn enwedig lorri fawr Pebyll Fedwen.'


Teimla Dilys Morgan, Alltgoch, ysgrifenyddes y Babell iddo fod yn benderfyniad anorfod er fod trefniadau'r Babell Fawr eisoes bron yn eu lle erbyn y dydd Mawrth cyn y sioe. Gorchwyl diflas iawn fu treulio dau ddiwrnod cyfan ar y ffôn yn torri'r newydd i gystadleuwyr a beirniaid fel ei gilydd a gofyn ar yr un pryd am eu cefnogaeth eto yn 2009.

Yr un oedd teimladau Janet Jones yr Ysgrifenyddes Gyffredinol; 'Mae trefniadau'r sioe yn flynyddol yn cychwyn y mis Hydref cyn y sioe gyda dewis beirniaid. Bu sioe 2007 yn anodd gyda Chlwy Traed a'r Genau ac roedd cwmwl Clwy'r Tafod Glas eisoes yn fygythiol i'r sioe eleni. Rhaid edrych ymlaen at sioe lwyddiannus yn 2009.'

Mae Evan Jenkins, Carregcadwgan, Cadeirydd Pwyllgor y Sioe am ddatgan gwerthfawrogiad y Pwyllgor i'r cyd-ddealtwriaeth hapus sydd wedi bodoli rhwng y Sioe a theulu Glanleri ar hyd y blynyddoedd a hynny dros sawl cenhedlaeth bellach. Mae pawb yn edrych ymlaen i gydweithio er sicrhau sioe gofiadwy arall ar gaeau'r Llew Du yn 2009.

Gyda'r newid hinsawdd a'r cynhesu byd eang mae'n bosib y bydd tywydd ansefydlog yn peri i'r sioe gael ei chanslo yn amlach yn y dyfodol.

Gwrandewch! Gwyliwch! CDs a DVDs newydd



Trebor Edwards
Sicrwydd Bendigaid
Casgliad o emynau

Geraint Jarman
Atgof fel Angor
15 CD am £49.99!

Piantel
Casgliad newydd i'r piano a'r delyn

Gwibdaith Hen Frân
Tafod Dy Wraig

Geraint Løvgreen
Busnes Anorffenedig

Calan
Grŵp gwerin ifanc llawn afiaith

David Kempster
Bariton byd-enwog o'r Waun

4 CD o oreuon...
Hanner Pei
Delwyn Sion
Jim O'Rourke
Maffia Mr Huws

Corau Meibion
Llanelli
a Chymry
Hong Kong;
Côr Ieuenctid
Ceredigion;
Môntré;
Parti Meibion
Y Foel

DVDs...
Tecwyn y Tractor
Ffi-ffi
Bob y Bildar
Myffin y Mul
Clwb Carioci
16 o Ganeuon
Poblogaidd

Harbwr Diogel
Llyfr o 4 o ganeuon
Arfon Wyn wedi eu
trefnu ar gyfer llais,
piano a chordiau gitâr -
Harbwr Diogel, Cae o Yd,
Paid â Chau y Drws
a Cariadon Bosnia



www.sainwales.com

ffôn 01286 831.111 ffacs 01286 831.497
archeb@sainwales.com

Medal aur i Iolo



Iolo yn derbyn y fedal gan Lywydd Llys yr Eisteddfod , Huw Thomas, yng nghwmni'r Archdderwydd, Dic Jones)

Yng nghanol yr holl firi am y medalau aur Olympaidd a ddaeth i Brydain mae'n braf medru llongyfarch un o drigolion Tal y Bont ar dderbyn y fedal aur am wyddoniaeth yn Eisteddfod Caerdydd. Yn hollol haeddiannol dyfarnwyd y fedal i Dr Iolo ap Gwynn Garregwen a chyflwynwyd y fedal iddo yn ffurfiol ar lwyfan yr Eisteddfod ac yna mewn seremoni hyfryd yn y Pagoda ar y maes - y ddau ddigwyddiad ar brynhawn Iau. Dyma'r ail dro i'r fedal gael ei dyfarnu i'r teulu - anrhydeddwyd ei fam, Dr Eirwen Gwynn yn yr un modd yn Eisteddfod Abertawe dwy flynedd yn ôl.

Ganwyd Iolo yn Llundain yn 1944. Symudodd y teulu i fferm yn Eifionydd yn 1950 a mynychodd ysgolion cynradd Llanystumdwy a Chricieth ac ysgol uwchradd Eifionydd. Symudodd y teulu i Fangor yn 1962 a bu Iolo yn fyfyrwr isradd ac wedyn uwch- radd yn Adran Swŷleg Prifysgol Cymru Aberystwyth. Fe'i penodwyd yn Gydymaith Ymchwil, yn Ddarlithydd ac yna'n Uwch ddarlithydd yn y Brifysgol. Priododd Ellen (a oedd gyda llaw yn gariad iddo ers dyddiau ysgol) a bu'r teulu yn byw yn Aberystwyth a Llangwryfon cyn symud i Garregwen yn 1988. Mae ganddynt dri o blant - Llŷr sy'n rhedeg ei fusnes peirianeg ei hun, ac yn byw gyda'i bartner Meleri yn Llandre, Rhian, sy'n byw gyda'i gwr Robbie a'u plentyn Caio Jac yng Nghaerdydd a Rhys, sy'n olffiwr proffesiynol ac yn byw yn Basingstoke gyda'i wraig Hayley a'u plant, Billy a Lucy.

Wrth gyflwyno'r fedal cyfeiriodd Llywydd Llys yr Eisteddfod Huw Thomas at gyfraniad arbennig Iolo i wyddoniaeth yng Nghymru. Roedd naw gwyddonydd arall wedi eu henwebu ond ym marn y Panel Asesu roedd Iolo yn sefyll ben ac ysgwydd uwch ben y lleill. Mae ymchwil Iolo yw datblygu technegau meicrosgopeg electron mewn astudiaethau o gelloedd ac o feinwe cartilag cymalog. Mae'n awdur dros gant o bapurau yn y maes ac yn cyfarwyddo gwaith ymchwil yn Aberystwyth ac yn cyd-weithio gydag arbenigwyr yng Nghaerdydd, Bilbao a Davos Swisdir. Ei brif ddiddordebau hamdden yw mynydda a ffotograffiaeth ac yng nghanol ei holl brysurdeb mae'n gyson barod i roi o'i amser i gynorthwyo a chysodi *Papur Pawb*.

Roedd yr Archdderwydd, Dic Jones hefyd yn bresennol yn y seremoni yn y Pagoda ac wrth longyfarch Iolo ar ei gamp cyflwynodd yr englynion hyn iddo:

Boed ein defod a'n clodydd – yn deilwng
O dalent gweledydd,
A rhown ein mawl i'r sawl sydd
Wedi'i eni'n wyddonydd

Gwyn ein byd ddyfod hogyn bach – Eirwen
A Harri'n gawr bellach,
Gan dyfu'n eilun ei ach,
Yn olyniaeth ei linach.

Llongyfarchiadau cynnes i Iolo ar ei gamp a phob hwyl ar wisgo'r fedal – gyda choler a thei wrth gwr!! Sgersli bilif!

Enwogrwydd Annisgwyl i Sioe Tal-y-Bont

Mewn atodiad ar gyfer y Gemau Olympaidd ym mhapur newydd y GUARDIAN ar Dydd Sadwrn 9fed Awst gwelwyd hysbys anarferol i sioe y pentref.

Cynnwys yr atodiad oedd manylion i wylwyr teledu am y gwahanol gampau y disgwylir eu gweld yn ystod y pythefnos i ddod yn Beijing. Eglurwyd manylion am y gamp, y sêr, y rheolau, erthyglau am y lleoliadau newydd drud yn y ddinas a rhagolygon Prydain. Yn ogystal yr oedd taflen amser fanwl fesul dydd i wylwyr teledu, doethinebau Conffiwsiws (gydag eglurhad), pytau am enwogion y byd yn y maes a nifer helaeth o luniau'r sêr a'r lleoliadau penigamp.

Ar ddiwedd y dudalen yr oedd paragraff dan y pennawd ATYNIADAU ERAILL i'r rhai nad oedd a diddordeb yn y fath beth yn cynnig rhywbeth i'w wneud yn hytrach nag eistedd o flaen y bocs ac am Ddydd Sadwrn 23ain Awst nodwyd bod, 'Madonna yn perfformio noson gyntaf ei sioe newydd *Sticky and Sweet* yng Nghanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd cyn mynd o gwmpas y byd gyda'r sioe. Nid dyna'r unig atyniad yng Nghymru heddiw ychwaith. O na. Y mae SIOE TAL-Y-BONT A GOGLEDD CEREDIGION ymlaen hefyd'.

Enwogrwydd yn wir!

Os am daesi neu fws mini

CAMBRIAN CABS

Teithiau Pell ac Agos
01970 626292

DEFODDION CYMRO LLEOL

H. LLOYD WILLIAMS
CYNNAL A CHADW' GERDDI
TORTI POMF A SIETYN,
GOSOD DECHING A SLABAU

DOES DIM FY CHREID O WILTH!

32 Dyrnalluall Ffôn 01970 820499
Blow Street Symbot 07956 508119

CANOLFAN M.O.T.

HUW LEWIS

M.O.T. CENTRE

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

TEIARS

HUW LEWIS

TYRES

Glanyrafon

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

HUWLEWISTYRES.COM

Ffôn 01970 636774

Mae cloch Eglwys Dewi Sant “yn ein gwahodd tua’r llan” unwaith eto

Ar fore dydd Sul yn Hydref 2007 a gyda hanner awr i fynd cyn dechrau’r gwasanaeth, aeth Mrs Eurllys Jones i ganu cloch yr Eglwys. Lleolir y gloch yn nhŵr yr Eglwys ac mae angen tynnu’r cortyn er mwyn i’r gloch ganu. Wrth wneud hyn y bore hwn, fe ddigwyddodd rhywbeth brawychus ac anffodus. Torrodd y teclyn oedd yn dal y gloch ac fe gwmpodd y gloch i lawr y tŵr gan wneud y sŵn mwyaf ofnadwy - ond yn ffodus iawn i Eurllys - roedd llawr y tŵr yn ddigon cryf i ddal pwysau’r gloch! Mi roedd Miss M M Williams a Dr Myrtle Parker yn digwydd bod yn yr Eglwys yn paratoi ar gyfer y gwasanaeth pan ddigwyddodd hyn.

Mae arysgrifiad ar y gloch yn dangos ei bod wedi cael ei rhoi yn anrheg gan aelodau o Gymdeithas Wnïo Llanfihangel Genau’r Glyn yn 1909 ac felly mi fydd yn gan mlwydd oed y flwyddyn nesaf.

Roedd y Ficer, aelodau’r Eglwys a bobl yr ardal yn gweld eisiau clywed y gloch yn canu ar adeg y gwasanaethau ac yn enwedig ar achlysuron fel angladdau. Yr oeddem i gyd yn gwybod y byddai atgyweirio’r gloch yn mynd i fod yn eitem gostus iawn. Mae’r gloch yn bwysig iawn i ni fel addolwyr ac mae hefyd yn rhan o’n hetifeddiaeth eglwysig ni. Felly, roeddwn i gyd fel aelodau o’r Eglwys yn awyddus i atgyweirio’r gloch mor fuan â phosib.

Yr ydym yn ddiolchgar i Gronfa Eleri - Amgen a gytunodd i’n cais i gyfrannu £200 tuag at yr achos a hefyd i Gyngor Cymuned Ceulanamaesmawr a gyfrannodd £100. Derbyniwyd rhoddion hefyd oddi wrth unigolion tuag at yr achos. Cynhaliwyd Bore Coffi ym mis Ionawr a bwriedir trefnu Bore Coffi eto ar ddydd Sadwrn, 20 Medi rhwng 10.30 - 12.00 o’r gloch i helpu’r gronfa.

Erbyn hyn, mae’n braf medru adrodd fod y gloch wedi cael ei adfer. Gwnaethpwyd y gwaith o atgyweirio’r gloch gan ‘Gwasanaethau Peirianyddiaeth Llyr’ - (Llyr ap Iolo, Lôn Glanfred, Llandre) ac mae’n diolchiadau gwresaf ni yn mynd i Llyr am ei holl help a’i waith trylwyr a medrus. Mae Llyr wedi adeiladu ffrâm bren o gwmpas y gloch i’w diogelu rhag iddi gwmpo eto! Rydym yn ffodus iawn i gael peirianydd medrus yn byw yn yr ardal.

Felly, er nad oedd “haul Gorffennaf gwych eleni, yn ein gwahodd tua’r mynydd” braf ydyw medru dweud bod cloch Eglwys Dewi Sant eto “yn ein gwahodd tua’r llan”.

Dr Myrtle Parker/Mrs Eurllys Jones

Treialon Cwn Defaid Tal-y-bont



Cynhaliwyd ein treialon eleni ar ddydd Mercher Awst 6fed ar gaeau Llety Ifan Hen ar wahoddiad caredig y teulu. ‘Doedd y cyfryngau ddim yn rhagweld tywydd rhy ffafrinol ond cafwyd bore sych a chododd y niwl o’r brynau cyfagos. ond yn gynnar yn y prynhawn dechreuodd lawio ac o ganol y prynhawn cafwyd cyfnodau o law trwm iawn. Cychwynnodd y treialon yn fuan wedi hanner awr wedi saith y bore, a chafwyd ond torriad byr i ginio, daliwyd ati yn gyson hyd bron hanner awr wedi wyth yr hwyr.

Ar ddiwedd y dydd diolchodd y cadeirydd, Dafydd Jenkins, Tanrallt i deulu Llety Ifan Hen am y caeau a’r defaid i redeg y treialon, i’r cystadleuwyr am eu cefnogaeth yn enwedig yn ystod tywydd garw’r prynhawn ac i’r beirniad, Mrs Rona Davies o Lamed oedd wedi cael diwrnod hir iawn. Yna cyflwynodd y llywyddion sef Dilwyn ac Elisabeth James, Cwmudw, diolchodd iddynt am eu cefnogaeth a’u gwahodd i gyflwyno’r gwobrau.

Prif enillydd y dydd oedd Eirian Morgan o Aberystwyth gyda’i gi Spot yn ennill y cwpan, rhoddedig gan y diweddar Mrs. Iona Rowlands er cof am ei brawd Evan Hopkins, am y rhediad gorau yn null de Cymru, y wobwr er cof am Mary Edwards a Jenkin Morris am y rhediad gorau cyn hanner dydd a hefyd y cawg rhosynau er cof am Richard Edwards, Lletyllwyd am rediad orau’r dydd. Ennillwyd y dosbarth nofis cyfyngedig i Geredigion a’r cwpan rhoddedig gan y diweddar Ken Jones er cof am ei ewythr, D. J. Williams, Cynnullmawr gan Aled Evans o Beulah gyda’i gi Roy. Enillydd y treialon lleol ar nos Fawrth oedd Elgan Evans, Tynant gyda Sam.

Oherwydd y tywydd garw bu’n rhaid cynnal y cystadleuthau cneifio dan do yn Llety Ifan Hen. Bu cystadlu brwd ar y cneifio gyda deg yn y dosbarth agored gyda pheiriant ac yn y dosbarth agored i aelodau Clybiau Ffermwyr Ieuanc. Enillwyd y dosbarth agored gan Dilwyn Evans, Tynant gyda Dafydd Jenkins, Tanrallt yn ail ac Elgan Evans, Tynant yn drydydd. Yn y dosbarth agored i aelodau Clybiau Ffermwyr Ieuanc yr enillydd oedd Rhydian Evans, Tynant gyda Dylan Jones yn ail a Ceredig Lewis yn drydydd. Ceredig Lewis ennillodd y dosbarth i aelodau Clybiau Ffermwyr Ieuanc o dan 21 gyda Dylan Jones yn ail a Sion Evans yn drydydd. Yn y dosbarth i gneifwyr gyda gwellau Enoc Jenkins ddaeth yn gyntaf gyda Dafydd Jenkins yn ail ac Arthur Morgan yn drydydd.

Er gwaethaf y tywydd garw cafwyd diwrnod llwyddianus ac unwaith eto gyda chystadlu brwd yn y treialon a’r cneifio.

IM

GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini
i’w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk

Ffôn: 01970 832278

Age Concern - Ceredigion

CLWB CINIO TAL-Y-BONT

YDYCH CHI’N MWYNHAU CYMDEITHASU,
Cael hwyl, cadw’n iach, mwynhau bwyd blasus?
YMUNWCH A NI - CLWB CINIO TAL-Y-BONT.
CWRDD UNWAITH Y MIS YN Y LLEW DU

Os oes gennych chi ddiddordeb, cysylltwch â Jane Raw-Rees, Swyddfa Aberystwyth, Cyngor Henoed Ceredigion, Yr Hen Ysgol Gymraeg, Ffordd Alexandra, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1LE.
Ffôn: (01970) 615151. E-bôst: jrr@ceredigionageconcern.fsnet.co.uk
Elusen Cofrestredig1042789

Menter Newydd

Ychydig fisoedd yn ôl, agorwyd llety gwely a brecwast moethus yn Llandeilo a chroesawyd y gwesteion cyntaf yno ddechrau mis Ebrill. Menter Owain ac Eva Huw yw Fronlas; mae Owain yn hanu o Dal-y-bont, ac yn fab i Eleri a Gwilym, Pengwern. Un o Malmesbury, Wiltshire, yw Eva ac yn ystod y ddwy flynedd diwethaf mae hi wedi dysgu Cymraeg ac yn mwynhau defnyddio'r iaith yn y busnes newydd. Eva sy'n rhedeg y busnes o ddydd i ddydd, tra bod Owain yn gweithio fel Swyddog y We a Thechnoleg Gwybodaeth yn y Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg, Caerfyrddin.

Ar ôl iddynt dreulio blwyddyn a hanner yn ei adnewyddu, mae'r tŷ Edwardaidd bellach wedi'i gynllunio'n chwaethus i gynnig pob cysur a moethusrwydd, ac y mae hefyd yn defnyddio eco-drydan a phaneli solar. Mae'r brecwast llawn, organig, yn defnyddio cynhwysion ffres o ffynonellau lleol.

Yn fuan ar ôl iddo agor dyfarnwyd statws pum seren i Fronlas, a chafodd ei ddewis i fod yn rhan o gynllun Wales in Style – casgliad annibynnol o rai o'r llefydd gorau yng Nghymru i aros, i fwyta ac i ymweld â hwy. Mae hefyd wedi cael nifer o adolygiadau hynod ffafriol mewn papurau lleol a chenedlaethol.

Dymunwn bob lwc i Owain ac Eva gyda'u menter newydd. Am ragor o wybodaeth am Fronlas, ffoniwch 01558 824733 neu ewch i'w gwefan, www.fronlas.com.

**Argraffu 5-lliw
a gwasanaeth di-ail:
holwch Paul am bris
ar paul@ylolfa.com**



ylolfa
TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE
01970 832 304
ylolfa@ylolfa.com
www.ylolfa.com

**Siop y Pethe
Aberystwyth**

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

**ANGEN
Anifeiliaid Tew
(i'w lladd mewn
lladd-dy lleol)**

Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Capel Bangor 180627

Ravin' Stompers

Ar benwythnos gŵyl y banc wrth lansio Gŵyl y Prom am yr ail flwyddyn yn olynol, gwelwyd Aberystwyth yn llawn cerddoriaeth canu gwlad a dawnsio brwdfrydig y Ravin' Stompers. Syniad gwych y feistres ddawnsio llinell leol, Heulwen Astley oedd cychwyn codi arian i Apêl Cancr y Fron Ysbyty Bronglais bron i bedair blynedd yn ôl.

Daeth Paul Bailey ac B J Locklin i ddiddanu'r dorf ar y dydd Sul, gyda Donna Wilde a Paul yn parhau i ddifyrnu'r gynulleidfa ddydd Llun. Yn wir bu Paul Bailey ddigon drygionus i ddringo ar ben castell neidio gyfagos efo'i gitâr, tipyn o boen pen oedd trio dod yn ôl lawr mewn trowsus lledr! Daeth Sandra, dancerS AND Ravers, Gobowen i edrych ar ôl y disgo ac i ddysgu ambell ddawns gan gynnwys un oedd wedi'i 'sgwennu'n arbennig i'r penwythnos sef "Bandstand Boogie"! Daeth pawb ynghyd nos Sul yng nghlwb RAFA, lle cafwyd gwledd o adloniant gyda Mark Brown yn canu. Cafwyd cyfle i brynu pêl rygbi wedi'i arwyddo gan dîm y Sgarlets rhodd gan Loteri'r Sgarlets, a werthwyd am £250 yn yr ocsiwn unigryw gan Eleri James! I gloi'r penwythnos ar y nos Lun awd fyny i gopa "Constitution Hill".

Gan fod arian yn dal i lifo mewn bydd y cyfanswm yn rhifyn nesa' Papur Pawb! Byddwch yn falch o glywed bod y digwyddiad wedi'i fwcio ar gyfer penwythnos gŵyl y banc flwyddyn nesa'!

EJ

**Ysgol Gymunedol
Tal-y-bont**
Rhieni Plant y Cyfnod
Sylfaen yn cynnal
BORE COFFI
Bore Sadwrn 27 Medi 2008
Neuadd Goffa Tal-y-bont
10 – 12 y bore
Beirnedir Cystadleuthau'r
Sioe (plant) yn ystod y bore


**Dofednod
Cwmtynant**



Dofednod ffres o fferm leol.
Archebwch wydd, twrci, hwyaden
neu gwy i'w ierbynnu y Nadolig
Cysylltwch â Dilwyn, Marion,
Rhydian neu Eigan
Tynant, Tal-y-bont 01970 832 257

**James
Memorials**
Am
GOFERBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU
Gofynnwch am broffect
riad ac am ddiwrnod
James Memorials
Wicarsge Crossing,
Llanrhaeadr, Gogledd Cymru
Ffôn: (01970) 833 111

**CODI Tŷ NEU
ESTYNIAD?**



Yn eiddo, heb gyswllt i'r parhau
Gallwch chi gael eiddo neu
estyniad i'w gael

Y Fframdy
Mae'r gweithdy yn darparu
gwasanaeth fframio dychymyg
o'r safon uchel.
Cwch ddewis o amrediad eang o
dapiau gored a fframiau.
Bydd y fframdy'n gallu darparu ar
gyfer ar gyfer angenweddion unigol.
Y Fframdy Glanell, Y Bont,
Ceredigion SY24 5HA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846559

K Hughes

Plymio a Gwresogi
Gored a Thellio Ystafelloedd Ffiochi
Gwasanaeth Boeler Olw

01970 832129
07761 917235



Sefydliad y Merched Taliesin

Ardal Y Trallwng oedd cyrchfan trip blynyddol Sefydliad Y Merched Taliesin ddydd Sadwrn 5 Orffennaf. I faes awyr Ambiwylans Awyr Cymru aethpwyd yn y bore lle cawsom groeso cynnes gan y paramedics oedd wrth law i ddisgwyl galwadau brys. Maent yn darparu gwasanaeth hanfodol drwy Gymru gyfan i bawb sy'n wynebu salwch neu niweidiau sy'n fygythiol i fywyd. Yna cafwyd amser i gael cinio a siopa yng Nghoed y Dinas cyn ymweld a Chastell Powis a cherdded yn hamddenol o gwmpas y gerddi hardd ar castell sy'n llawn o gelfi, tecstilau a pheintiadau yr Herberts ar Clives.

I gynorthwyo ymgyrch cenedlaethol Ambiwylans Awyr Cymru eleni sy'n anelu at gael hofrennyddion newydd yn 2009, daeth nifer dda i dŷ Meirir Fleming i fwynhau te hufen a mefys ar brynhawn heulog Sadwrn 26 Orffennaf. Cafwyd stondinau gacennau a raffl i godi arian a throsglwyddwyd

£350.00 tuag at yr ymgyrch.

Yn ystod mis Awst aeth criw ohonom am dridiau i Lundain. Unwaith eto, cafwyd hwyl a chyfle i ymlacio gyda'n gilydd gan ymweld a phalas Buckingham, gerddi Kew a dwy sioe yn y Strand - sef *Joseph a Lion King* - sioeau gwerth i'w gweld a pawb wedi mwynhau y profiadau yn y ddinas fawr. Mi fyddwn yn cwrdd fel arfer ar nos Fawrth cyntaf y mis yn y Llan Fach, Taliesin a dyma rhai o ddigwyddiadau y misoedd sy' i ddod –

7fed Hydref Cyfarfod Blynyddol

4ydd Tachwedd Gwneud Cardiau

2 Rhagfyr Coginio i'r Nadolig

15 Rhagfyr Cyngerdd y Nadolig

Croeso cynnes i bawb i daro fewn i ymuno yn y gangen.

Gŵyl a Barbeciw Bontgoch 2008



Ciss Jones a Geraint Evans

Ar 19eg o Orffennaf cynhaliwyd 6ed Gŵyl a Barbeciw blynyddol Bontgoch, a drefnwyd gan Gymdeithas Elerch ac a gynhaliwyd yng nghanol y pentref. Cafwyd diwrnod pleserus a llwyddiannus iawn eleni eto gyda dros 30 o blant a 30 o oedolion yn mynychu. Roedd yn braf i weld cymaint o bobl o bob oedran wedi dod ynghyd i fwynhau cwmni eu gilydd. Er i'r diwrnod ddechrau braidd yn gymylog, cafwyd prynhawn godidog. Profodd y llithren ddŵr i fod yn boblogaidd iawn eleni eto gan y plant tra eisteddai'r oedolion o gwmpas yn sgwrsio hyd fachlud haul. Yn ogystal â'r llithren ddŵr roedd yna nifer o gemau ar gyfer pawb, yn cynnwys 'cow hoppers', cystadleuaeth taflu wyau ac amryw o gystadlaethau pabell megis: detholiad o lysiau cartref, trefniant o flodau mewn fâs, coginio cacennau, addurno bisgedi yn ogystal â chystadlaethau paentio a dod o hyd i'r mwydyn hiraf i'r plant. Cafwyd hwyl di-ri gyda'r gystadleuaeth adnabod y simdde wrth i bawb geisio adnabod simneau'r pentref o luniau agos.

Roedd yna ddigonedd o fwyd i bawb – selsig, byrgyrs, cig oen a chig moch, y cyfan wedi'u coginio yn hyfryd gan Mike Lithgow, Phil Clarke a Gwladys Evans. I ddilyn mwynhawyd sgoniau jam a hufen wedi eu gwneud gan Jane Bailey. Ar wahân i'r bwyd, uchaftwynt yr achlysur oedd y Ras

Hwyaidd. Ymgasglodd pawb wrth y bont i wyllo 86 o hwyaidd yn nofio heibio. Yr hwyad gyntaf i basio'r llinell derfyn oedd un Geraint Jones a hwyad rhif 100 o eiddo Mike Bailey oedd y diwethaf a fe felly enillodd y wobwr wirion, sef medal siocled fawr!

Enillwyr gwobrau'r babel oedd:

Llysiau wedi'u tyfu ym Montgoch:

Oedolion – **Mr Gareth Evans**, Sŵn y Ffrwd; Plant – **Ianto Hammond**

Cacen Foron – **Mina Morel**

Cacen Siocled – **Christopher Morel**

Bisgedi wedi'u addurno – **George a Flori Lithgow**

Fâs o flodau – **Phil Clarke**

Paentio i blant: 0-6 oed – **Flori Lithgow**; 7 – 11 oed – **Jack Horwood**;

11-16 oed – **Serian Evans**

Mwydyn hiraf – **Andrew Morel**

Roedd pawb yn gytŷn taw dyma'r Barbeciw gorau eto, roedd yn wych i weld y gymuned yn tynnu ynghyd i drefnu a mwynhau digwyddiad a oedd mor llwyddiannus. Er nad pwrpas y diwrnod oedd i godi arian, fe godwyd digon o arian i'n galluogi i gynnal y Coelcerth a Thân Gwylt blynyddol am ddim i'r gymuned eleni.

M.M.



Daniel Basnett, Steffan Evans a Richard Bailey

Richard Bayford

Synnwyd pawb ddiwedd Mehefin gyda'r newydd am farwolaeth Richard Bayford. Er yr olwg wael oedd amo daeth y diwedd yn sydyn ac annisgwyl ac yntau ond yn 64 oed.

Hannai o ardal Bryste a chafodd ei addysg mewn ysgol breswyl yn yr ardal honno. Ei brif ddiddordebau yn yr ysgol oedd athletau a chwaraeon a chafodd lawer o lwyddiant yn y maes yma. Parhaodd yr hoffter yma o bob math o chwaraeon gydol ei oes. Yn ddeunaw oed ymunodd a'r awyrlu fel heddwac ac yno y bu am naw mlynedd gan weld llawer gwlad ac esgyn i fod yn is-ringyll. Wedi gadael yr awyrlu bu am gyfnod yn hyfforddi milgwn, eto gyda chryn lwyddiant gan ennill nifer o rasys cydnabyddedig. Yna symudodd yn ôl i ardal Bryste, cyfarfod âg Ann a phriodi a byw yno am y blynyddoedd nesaf yn rhedeg bwytai Kentucky Fried Chicken.

Yn 1983 symudodd y teulu i Daliesin a dechreuodd Richard weithio fel peintiwr ac addumwr. Wedi i'w briodas dorri lawr symudodd am dymor byr i Aberystwyth ac yna i Dal-y-bont. Cymerodd nifer o swyddi fel y dyn lolipop a gofalu am y toiledau yng ngwaelod y pentref ond cofir amdano yn bennaf fel gofalwr y Neuadd Goffa. Roedd yn gydybodol gan ofalu fod yr ystafelloedd bob amser yn barod i'r gwahanol fudiadau i'w llogi. Hefyd daliodd i beintio a gwelir ôl ei waith yn y neuadd, ym Methel ac ar nifer o dai yr ardal. Roedd yn beintwr graenus a chymen gyda balchder yn ei waith.

Fel y gwelir bu fyw bywyd lliwgar ac amrywiol. Cydymdeimlwn a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

I.M.

Margaretta Jane Pierce
1908-2008

Bu farw Getta ar ôl cyfnod yng nghartref Heatherslade ym Mro Gŵyr ychydig fisoedd cyn ei phenblwydd yn gant oed. Hi oedd yr ieuengaf o chwe phlentyn a aned i William a Mary Edwards, Llys Cynfelin, Taliesin. Bu farw ei brawd Haydn yn ifanc. Priododd ei chwariydd Gweneth ac Edna ac ymsefydlu yn Lloegr. Bu ei chwaer hynaf, Lilian, yn athrawes am 40 mlynedd yn Ysgol Tal-y-bont. Roedd Reg yn gyfreithiwr adnabyddus yn Aberystwyth ac yn grwner Gogledd Ceredigion nes iddo ymddeol yn ei 80au.

Bu Getta yn athrawes gynorthwyol am gyfnod cyn priodi Oliver Pierce o Ynysybwl, oedd â theulu yn Rock House, Llangynfelyn, cyn symud i fyw i Gaerdydd ble ganwyd eu dwy ferch, Bethan a Siân.

Yn 1965, wedi i'r plant fynd i'r coleg, aeth Oliver a Getta i Llwynycelyn ger Aberaeron i redeg y Llythyrdy yno, lle bu'r ddau yn asgwrn cefn yn y gymdeithas. Wedi ymddeoliad Oliver o'r post, daethant yn ôl i Dal-y-bont ac ymsefydlu yn Elgar gyda Lilian (a'i chwaer yng nghyfraith Olive yn byw'n gyfagos yn Tŷ Twt). Ar ôl marwolaeth ei gŵr, Oliver, aeth Getta a Lilian i fyw i Landaf i fod yn agos i Bethan a'i theulu. Yn 2002, bu farw Lilian. Naw mis yn ôl, symudodd Getta i gartre ym Mro Gŵyr, nepell o gartref Siân yn Pennard. Bu farw yn dawel ar ôl un noson yn Ysbyty Singleton, heb golli ei chof na'i diddordeb ym mhawb a phopeth – yn enwedig ei hwyrion a'i gorwyrion. Daeth torf ynghyd i angladd Getta yng Nghapel y Crwys, Caerdydd; prawf o werthfawrogiad pawb o'i chyfraniad i'r gymdeithas yn ystod ei chyfnodau yn y Brifddinas.

B.P.L.

CLWB NOS WENER

TAITH GERDDED

'PNAWN SADWRN 27 MEDI 2008

Ymgunnall ar y Patsyn Glas am 13:45 i ddal y bws i Landyfi.
Cerdded oddi yno i Fachynlleth mewn da bryd am bryd.
(Cewch dewis eich bwyty o'r dewis eang o lefydd.)
Dychwelyd i Dal-y-bont hefo bws 21:20 ar ddiwedd y noson.
Os nad ydych am fwyta mae bws am 17:57.

Os oes gennych ddiddordeb anfonwch eich enwau i dhh@aber.ac.uk
Petai angen rhagor o wybodaeth am y daith yna cysylltwch â
Rhys neu Trisch ar 832076 yn yr wythnos cyn y daith.

CLWB NOS WENER

Y Llyfr – Y Bennod Olaf?

Mae 'na hir ddarogan am ddiwedd y llyfr ac mae'r teclyn diweddaraf o stabl Sony yn ymgais i brysuro tranc y llyfr fel cyfrwng. Lansiwyd y teclyn - Y Sony Reader - mewn cydweithrediad a chadwyn o siopau llyfr ac un o'r cyntaf i brynu'r Reader yn yr ardal hon yw Garmon Gruffudd, Rheolwr Gyfarwyddwr Gwasg Y Lolfa.



Yn fwriadol mae Sony wedi llunio'r teclyn i edrych fel llyfr - mae ganddo 'siaced' ledr, mae maint a phwysau y Reader tua'r un fath a llyfr clawr papur ac fe fyddwch yn 'darllen' y testun ar sgrin fechan o 6 modfedd. Y gwahaniaeth mawr yw'r gallu i storio 160 o deitlau - llyfrgell sylweddol felly - a'u cludo nhw gyda chi ble bynnag yr ewch - glan y môr, ar eich gwyliau neu'r stafell ymolchi. Mae'r rhan helaeth o'r teitlau sydd ar gael nawr yn weithiau sy allan o hawlfraint megis *War and Peace* neu Macbeth ond mae modd lawr-lwytho teitlau eraill yn union fel a wneir drwy sustem *itunes*.

Beth felly ym marn Garmon yw manteision ag anfanteision y ddyfais? Mae'n sicr yn fantais i gael 160 o deitlau o fewn un pecyn bychan. Mae 'na fanteision amgylcheddol - nid oes rhaid cymryd y fwyell i fwy fyth o goedwigoedd i greu papur y llyfr confensiynol ac mae cael y cyfan yn electronig yn arbed yr ynni a ddefnyddir gan weisg i argraffu a rhwymo. Mae'r ddyfais a'r dechnoleg yn creu cyfle i'r Lolfa i werthu i farchnad fyd-eang - darlennydd yn Efrog Newydd yn cael manylion am gyfrol ac yn ei harchebu a'i derbyn yn electronaidd. Mae'r Lolfa yn effro iawn i'r posibiladau ac fe fydd nofel nesa' Martin Davies, *Tonau Tryweryn*, ar gael yn union y ffordd hon. Mae 'na fodd hefyd i gyhoeddwr i roi 'tameidiau' o gyfrol ar ei gwefan - y darlennydd yn 'blasu' a gobeithio yn symud ymlaen i brynu!

Anfanteision? Mae'r testun ar y sgrin fechan yn llonydd - fedrwrch chi ddim tanlinellu na gwneud nodiadau - agwedd a allai fod yn bwysig i ddisgyblion ysgol a myfyrwyr. Gall y ddyfais a'r dechnoleg greu cyfleoedd am lèn-ladrad - mae'r farchnad gerddoriaeth eisoes yn rhemp o *pirate editions*. Mae'r fantais fawr yna o gael 160 o deitlau gyda chi ar eich gwyliau yn medru troi'n anfantais - dychmygwch eich hunan ar y traeth, yn mynd am hufen ia - ac wrth i chi droi cefn eich Sony Reader drudfawr a'ch holl lyfrgell yn cael eu dwyn!

Cydymaith i'r llyfr, nid cystadleuydd yw'r Sony Reader yn ôl Garmon ac yn ei farn ef bydd y Lolfa yn dal i argraffu a chyhoeddi cyfrolau print ar bapur am gryn amser. Os oes gyda chi £199 i sbario falle fod y Reader jyst y peth i chi - ond yn fy marn i mae tranc y llyfr mor bell i ffwrdd ag erioed.

GIE

CLWB NOS WENER

Geraint

Lavgreen

NOS WENER, MEDI 19 am 8:00
yn y LLEW DU, TALYBONT £5

Nodyn:
NEWYDD! PRYD
PRE-SIOE!

Bydd nifer ohonom yn cael pryd bar yn y Llew Du tua 7 o'r gloch.
Fel cynnig arbennig i aelodau'r Clwb, mae'r Llew Du yn cynnig Pryd Basged am ddim ond £3 a dim ond £5 am un o'r prydau Cartre (Lasagne, Pastai Bugail, Pastai Stecen, Cyw a Madarch, Chilli con Carne, a Lasagne llysieuol).

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Estynnodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Nest Jenkins, groeso cynnes i'w chyd-gynghorwyr i'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf. Derbyniwyd cofnodion cyfarfod mis Mehefin fel rhai cywir.

Derbyniwyd adroddiad llafar o'r gwaith gynnal a chadw a wnaed ar y Cae Bach. Roedd y cynghorwyr yn hapus iawn gyda'r gwaith oedd wedi ei wneud cyn belled ac yn falch o ddeall ei fod ar fin dirwyn i ben. Gan na chafwyd unrhyw wybodaeth cyn belled gan Gyngor Ceredigion ar ganlyniad yr arolwg a wnaed yn y Gwanwyn i gyflwr a diogelwch y ffordd C1019, cytunodd y Cynghorwyr i gysylltu unwaith yn rhagor ag Adran Ffyrdd y Cyngor Sir.

Cafodd y Cynghorwyr gyfle i weld y paneli gwybodaeth yn deillio o brosiect Ysbryd y Mwynwyr sydd i'w codi yn y dyfodol agos ym mhentrefi Tal-y-bont a Bont-goch. Mae'r paneli hyn yn arddangos yn weladwy dreftadaeth ddiwydiannol yr ardal er gwybodaeth i'r trigolion ac ymwelwyr. Hefyd dosbarthwyd copiâu o daflenni gwybodaeth a gynhyrchwyd i gyd-fynd â'r paneli.

Adroddwyd bod y Cyngor heb eto gael ymateb i'r llythyr a anfonwyd i wrthwynebu argymhelliad BT i gau dau giosg ffôn o fewn y gymuned (un yn Bont-goch a'r llall yng Nghwm Eleri). Sail y gwrthwynebiad oedd y derbyniad gwael sydd o fewn yr ardal i ffonau symudol. Pasiwyd hefyd i anfon at Ofcom yn gwasgu arnynt i bwysu ar gwmnïau ffonau symudol i wella'r signal mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru.

Mynegodd y Cynghorwyr eu hanfodlonrwydd llwyr gydag ymateb Adran Prifffyrdd y Cyngor Sir i'w llythyr yn tynnu sylw at ddiffygion yr arwyddion ffordd sy'n dynodi system unffordd ar bwys y Patshyn Glas. Pasiwyd i ysgrifennu eto at yr Adran yn awgrymu cynnal cyfarfod safle fel mater o frys er mwyn iddynt gael gwell dealltwriaeth o natur y broblem.

Derbyniodd y Cyngor wahoddiad gan Elin Jones AC i ymateb erbyn 10 Hydref i ddogfen ymgynghorol gan Lywodraeth y Cynulliad ar ddatblygiadau cynaliadwy yng nghefn gwlad. Cytunodd y Cynghorwyr Enoc Jenkins ac Evan Evans i fwrw golwg dros y ddogfen ac i gyflwyno adroddiad yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

Hysbyswyd y Cyngor gan yr Awdurdod Cynllunio fod y cais i godi annedd ar bwys Alderbaran, Bont-goch, wedi ei dderbyn.

Cafodd y Cynghorwyr gyfle i fwrw golwg dros nifer o geisiadau cyllunio newydd, a chynnig sylwadau: estyniad i 7 Maes y Deri, newid defnydd adeiladau allanol Lerry View, adeiladu annedd newydd yng ngardd Lerry View, estyniad i 92 Maes y Deri, manylion lleoliad yr annedd newydd a llif traffig ar y plot ar bwys Cae'r Gog, Bont-goch, ac yn olaf y cais i godi annedd newydd ar bwys Bryn-y-Wawr, Tal-y-bont.

Mae'r Cyngor wedi derbyn cwynion am y graffiti a chwistrellwyd ar y gysgodfan bysiau ar bwys yr ysgol. Cyflwynwyd tystiolaeth gan un o'r Cynghorwyr oedd yn awgrymu'n glir bod y sawl a chwistrellodd y graffiti wedi manteisio ar ganister bondio bitwmen a adawyd ar ochr y ffordd gan weithwyr oedd wedi bod yn trwsio'r ffordd yn ystod mis Gorffennaf. Pasiwyd i anfon llythyr at yr Adran Prifffyrdd yn nodi hyn, ac yn gofyn iddynt gysylltu â'r contractwyr i dynnu sylw at flerwch eu gweithwyr a gofyn iddynt lanhau'r graffiti.

Derbyniwyd cwyn hefyd bod sawl modurwr wedi dechrau parcio eu cerbydau ar y llain tir rhwng yr ysgol a'r gyffordd yn arwain at Eglwys Dewi Sant gydag arwyddion 'Ar Werth' ar y cerbydau. Roedd y Cynghorwyr o'r farn bod yr arfer hwn yn peryglu diogelwch y ffordd a phasiwyd i dynnu sylw'r Cyngor Sir a'r awdurdod heddlu at gonsyrn y Cyngor.

CHWARAEON Sgorio pump yn Nolgellau

Cafodd tîm pêl-droedd Tal-y-bont ddechrau campus i'r tymor newydd, wrth guro Eilyddion Dolgellau o bum gôl i ddwy, gyda Todd Penfold a Craig Marshall yn sgorio dwy yr un ac Anthony Southgate yn rhwydo'r llall. Gohiriwyd y gêm yn erbyn Eilyddion Bow Street oherwydd y tywydd. Cawn fwy o hanes y tîm yn y rhifyn nesaf.

A DAVIES
TRYDANOL
Tŷ Morben Isaf
Derwenlas
MACHYNLLETH
Powys **Sy20 8SR**
ALAN DAVIES Ffôn 01494 791213





Salon Leri
Yn agorfa a drin gwallt gan Richard
Profesiyn a Mestisem
(Dew-Tym Llan-Garnaf)
01970 832 674

Canlyniad SWDOCW mis Gorffennaf
H M Jones, Maestyrnol, Machynlleth – tocyn llyfrau £10.00 iddo ef.

Ble yn y byd?

Sut i chwarae
Ble yn nhalgylch Papur Pawb mae'r llun yma wedi cael ei dynnu?

Ateb

Enw

Cyfeiriad

Côd Post

Rhif Ffôn

Atebion: i Geraint Evans, Garnwen, Tal-y-bont erbyn 2 Hydref.

Gwobr: Tocyn Llyfr £10
i'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.



15



CHWARAEON

Llwyddiant y Diwrnod Hwyl

Cynhaliwyd diwrnod o hwyl yn Nhal-y-bont ar Orffennaf 19ed lle daeth aelodau, hyfforddwyr a chefnogwyr o dîmau pêl-droed ieuencid Tal-y-bont ynghyd i fwynhau ac i godi arian ar gyfer rhedeg y clwb.

Cychwynnodd y diwrnod â thwrnament pêl-droed 5 bob ochr ar ffurf Cwpan y Byd ar gaeau'r ysgol a thimau cymysg o ran oed a rhyw yn cystadlu am y gorau. 'Portugal' cipiodd y safle cyntaf. (Aelodau'r tîm: Carwyn, Lowri, Anna, Lefi a Carwyn).


Yna ymlaen i ffald Penpompren er mwyn gweld y ras hwyaid ar hyd Afon Ceulan. Daeth y ras i'w therfyn wrth y bont a Mark Richards yn ennill y wobr gyntaf o £100.

Penllanw'r gweithgareddau oedd noson deuluol wrth y patsyn glas lle cynhaliwyd barbeciw, raffl ac ocsiwn addewidion o dan ofal ein harwerthwr amatur lleol, Geraint Evans.

Daeth tyrfa gref ynghyd i fwynhau cwmni eu gilydd yn y tywydd braf ac ar ddiwedd y noson roedd y cyfanswm a godwyd wedi cyrraedd dros £4,000.



Roedd llwyddiant y diwrnod yn sicr yn ganlyniad i drefniadau ardderchog y clwb ac i ymroddiad yr aelodau hynny bu'n paratoi am wythnosau o flaen llaw. Hefyd i'r holl gefnogwyr a ddaeth i sicrhau dyfodol llewyrchus i glwb pêl-droed ieuencid Tal-y-bont.



Tymor boddhaol

Mae'n syndod cymaint o griced a chwaraewyd gan Glwb Criced Tal-y-bont yn ystod haf gwlyb a diflas 2008. Wedi bod ar frig Cynghrair Gorllewin Cymru am gyfnod ar ddechrau'r tymor, roedd gobeithion y clwb am ennill y bencampwriaeth am y tro cyntaf yn uchel, ond unwaith yn rhagor roedd yr hen elyn, Aberystwyth, yn drech na phawb. Serch hynny, gyda'r tymor yn dirwyn i ben ym mis Medi, gall Tal-y-bont, dan arweiniad Jim Vaughan, ymfalchio mewn sawl perfformiad da, a chynnal safle anrhydeddus ymhlith ceffylau blaen y cynghrair.

Unwaith yn rhagor roedd y tîm yn ddibynnol ar Jim Vaughan am rediadau. Ei brif gyfraniad oedd 120 heb fod allan yn erbyn eilyddion Aberystwyth ddiwedd Mehefin. Gan fod y lleiniau yn wlyb roedd hwn yn dymor a oedd yn ffafrio'r bowlwyr. Hyd yn hyn mae Dan MacLean wedi cipio 27 wiced, a braf oedd gweld y bowlwr ifanc, David Evershed yn dangos addewid, gan gynnwys cipio 5 am 25 yn y fuddugoliaeth yn erbyn Tywyn ym mis Gorffennaf. Bowlwr llawer mwy profiadol sydd wedi cymryd y mwyafrif o'r wicedi sef Alastair Rhodes (35 wiced hyd yn hyn), gyda'i brif gyfraniad (5 am 19) yn dod yn y gêm yn erbyn eilyddion Aberystwyth.



Geraint Williams, agorwr Tal-y-bont, yn cael trafferth yn erbyn bowlwyr Aberystwyth (llun drwy garedigrwydd Arvid Parry-Jones)